



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

## PROSIECT 'FOOTPRINT' ABATY CAERFADDON: O Gofnodi Ffotogrametrig 4D i Realiti Rhithwir

Shônéd Jones: Goruchwyliwr Geomateg, [Wessex Archaeology](#)



Ym mis Mai 2018 fe ddechreuodd Wessex Archaeology gloddio dan lawr Abaty Caerfaddon. Oherwydd natur neilltuol y safle a'r angen i rannu'r gwaith yn barseli i ganiatáu gwaith adnewyddu, bu'n rhaid arbrofi gyda chofnodi ffotogrametrig 4D. Flwyddyn a hanner wedyn, mae'r model 3D cyfansawdd a adeiladwyd hyd yma yn cynnig cyfle i weld yr olion archaeolegol fel na chawsant eu gweld erioed o'r blaen, hyd yn oed gan archaeolegwyr.

Pan ddechreuwyd cloddio dan lawr yr Abaty, roeddem am ddefnyddio methodoleg a fyddai'n caniatáu i ni gynhyrchu cofnod cynhwysfawr o'r safle'n gyflym. Roedd Wessex Archaeology eisoes yn gwneud defnydd helaeth o ffotogrametreg ac roedd ein tîm maes mewn sefyllfa dda i'w chymhwyso at y safle, felly penderfynwyd defnyddio ffotogrametreg i gofnodi pob un parcel cloddio yn yr Abaty.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.



Mae gwaith caled y tîm wedi esgor ar bosibiliadau newydd ar gyfer defnyddio data archaeolegol, er enghraifft, creu llecyn realiti rhithwir. Gall hyn hybu dealltwriaeth o hanes y safle a chynnig ymgysylltu mwy ystyrlon i'r cyhoedd. Yn y cyflwyniad hwn rhoddir sylw i gofnodi ffotogrametrig 4D, yr hyn y gallwn ei ddysgu drwyddo am olion archaeolegol, a sut y gallwn gyflwyno'r canlyniadau i'r gymuned.



## Bywgraffiad

Mae gan Shônéd MSc mewn Archaeoleg Fforensig, cwrs a fu'n fodd i feithrin ei sgiliau ym maes cofnodi olion dynol mewn 3D. Ymunodd â Wessex Archaeology yn 2018. Bydd yn cefnogi prosiectau WA ar hyd a lled y wlad, gan gipio data mewn 3D a phrosesu setiau data. Dechreuodd weithio ar Brosiect 'Footprint' Abaty Caerfaddon ym mis Hydref 2018.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.